Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro

## Lefel y gweithgarwch dilynol: Mesurau Arbennig

## Ysgol Ardudwy

**Ffordd y Traeth
Harlech
Gwynedd
LL46 2UH**

## Dyddiad yr ymweliad: Chwefror 2022

**gan**

**Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Canlyniad yr ymweliad

### Symud o'r categori Mesurau Arbennig

Bernir bod Ysgol Ardudwy wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o'r rhestr ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1. Gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4

Mewn gwersi a thros amser, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig yn eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau pynciol. Yn ogystal, maent yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau llythrennedd a rhif. Maent yn llwyddiannus wrth gyflawni tasgau darllen ac ysgrifennu ac yn gwneud cyfraniadau gwerth chweil ar lafar. Mae hyn yn welliant sylweddol o'i gymharu ag adeg yr arolygiad craidd yn Rhagfyr 2018.

Mae llawer o ddisgyblion yn adalw dysgu blaenorol i gof yn briodol ac yn addasu a chymhwyso eu dealltwriaeth yn llwyddiannus i sefyllfaoedd newydd. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn gwneud cynnydd buan, er enghraifft wrth ddatblygu'u dealltwriaeth o sut y gall egwyddorion ymarfer gael eu cymhwyso i wella lefelau cydrannau ffitrwydd penodol yn y gwersi addysg gorfforol. Mewn ychydig o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent, yn bennaf oherwydd diffygion yn yr addysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n ofalus a pharchus ar eu hathrawon ac ar gyfraniadau eu cyfoedion. Maent yn mynegi eu hunain yn rhugl ar lafar gan ddefnyddio ystod briodol o dermau pynciol. Mae ychydig o ddisgyblion yn cynnig atebion o safon uchel gan gynnig esboniadau cynhwysfawr. Maent yn mynegi barn yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gyhoeddi a ydynt o blaid neu yn erbyn adeiladu fferm wynt yn ardal Harlech, gan esbonio'u safbwyntiau'n eglur. Mewn ychydig o wersi, mae'r disgyblion yn dawedog ac nid ydynt yn datblygu eu medrau llafaredd yn ddigon cadarn. Maent yn cynnig atebion byr, annatblygedig ac mae ganddynt eirfa gyfyngedig. Yn ogystal â hyn, mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio Saesneg i drafod, neu wrth ymateb i'r athro mewn gwersi sydd yn cael eu cynnal yn y Gymraeg.

Mewn tasgau darllen, mae llawer o ddisgyblion yn llwyddo i grynhoi digwyddiadau yn briodol gan frasddarllen a llithrddarllen i ddarganfod ffeithiau neu nodweddion arddull. Maent yn lleoli ffeithiau yn gywir o ystod eang o wahanol ffynonellau. Yn y gwersi Cymraeg a Saesneg, mae lleiafrif y disgyblion yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn llwyddiannus gan ddod i gasgliadau cadarn am negeseuon o fewn testunau amrywiol wrth ystyried arddull yr awdur a'r defnydd o iaith. Mewn ychydig o bynciau

eraill, mae disgyblion yn llwyddiannus wrth grynhoi gwybodaeth o fwy nag un testun neu ffynhonnell ac yn gwneud cymariaethau dilys.

Mae llawer o ddisgyblion yn trefnu eu gwaith ysgrifenedig yn addas mewn paragraffau ac maent yn atalnodi'n gywir. Fodd bynnag, mae camsillafu a’r defnydd o eiriau Saesneg yn britho gwaith ychydig o ddisgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu’n rhugl at ystod eang o ddibenion a chynulleidfaoedd. Mae lleiafrif y disgyblion yn defnyddio ymadroddion a geirfa estynedig i gyfoethogi eu gwaith ac ennyn diddordeb y darllenydd, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr i gwyno wrth reolwr gwesty am safon y gwasanaeth yn eu gwersi technoleg.

Mae gan fwyafrif y disgyblion fedrau rhif a mesur priodol. Maent yn cymhwyso eu dealltwriaeth yn llwyddiannus i ddatrys problemau pob dydd yn y gwersi mathemateg ac mewn gwersi eraill perthnasol. Er enghraifft, yn eu gwersi gwyddoniaeth, mae disgyblion yn defnyddio fformiwla yn hyderus i gyfrifo cyfaint a dwysedd sylweddau. Mae llawer o ddisgyblion yn dadansoddi data yn addas. Maent yn llunio graffiau cywir, gan ddewis y math mwyaf addas o graff i gyfleu’r wybodaeth. Yn y gwersi daearyddiaeth, mae mwyafrif y disgyblion yn dadansoddi graffiau’n llwyddiannus er mwyn dod i gasgliadau synhwyrol, er enghraifft wrth ddefnyddio ystod o siartiau i gymharu datblygiad gwledydd yn Affrica.

Pan gânt y cyfle, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu eu creadigrwydd a'u medrau meddwl. Yn y gwersi celf, mae llawer o ddisgyblion yn arbrofi'n briodol wrth ddefnyddio marciau amrywiol i efelychu arddull a gwaith Vincent Van Gogh. Mewn ychydig o achosion, lle ceir cyfleoedd buddiol, mae disgyblion yn datblygu medrau gwerthfawr wrth weithio'n annibynnol i ddatrys problemau.

Mae llawer o’r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn barchus at athrawon, ymwelwyr a’u cyfoedion, ac yn dangos parch at eu gwaith a’u llyfrau. Mae llawer o ddisgyblion yn setlo'n fuan mewn gwersi, yn canolbwyntio’n dda ac yn cwblhau tasgau'n ddiwyd. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn colli diddordeb yn y gwaith, yn araf i gwblhau tasgau ac nid ydynt yn gwneud y cynnydd disgwyliedig. Mae hyn o ganlyniad i ddiffygion yn yr addysgu.

## A2. Gwella ansawdd yr addysgu a’r asesu

Ers amser yr arolygiad craidd, mae’r ysgol wedi cyflwyno strategaethau synhwyrol ar gyfer gwella’r addysgu, gan ganolbwyntio ar bedair blaenoriaeth addas sef: cynyddu’r her a disgwyliadau, gwella’r adborth i ddisgyblion, meithrin medrau dysgu annibynnol disgyblion a gwella ansawdd cwestiynu’r athrawon. Yn ogystal, mae arweinwyr wedi darparu arweiniad a chyfres o hyfforddiant buddiol. Dros amser, maent wedi llwyddo i greu diwylliant lle mae athrawon yn trafod eu harferion addysgu yn agored ac yn awyddus i dderbyn adborth ar sut i wella. Mae’r strategaethau hyn wedi arwain at welliannau yn ansawdd yr addysgu o’i gymharu ag adeg yr arolygiad craidd.

Mae gan lawer o athrawon wybodaeth bynciol gadarn, ac maent yn meithrin perthnasoedd dysgu effeithiol gyda’u disgyblion. Mae gan yr athrawon hyn ddisgwyliadau uchel o ymddygiad a chyfranogiad disgyblion.

Yn y mwyafrif o wersi, lle mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn, mae athrawon yn rhannu nodau gwersi ac yn esbonio cysyniadau'n glir gan fodelu'u disgwyliadau yn effeithiol. Maent yn cynllunio gweithgareddau yn rhesymegol i adeiladu ar ddysgu blaenorol. Mae adnoddau pwrpasol ganddynt i gefnogi'r dysgu ac maent yn cynllunio gweithgareddau diddorol sydd yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn cynnig her briodol. Mae'r athrawon hyn yn fodelau iaith da sydd yn bwydo termau pynciol yn addas. Maent yn cylchu'r dosbarth er mwyn monitro cynnydd, yn adnabod camsyniadau ac yn cynnig adborth llafar gwerthfawr i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith. Yn y gwersi hyn, mae cydbwysedd da rhwng datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth bynciol disgyblion ynghyd â'u medrau.

Mewn ychydig o wersi, mae gan athrawon frwdfrydedd heintus sydd yn ysbrydoli'r disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn cynllunio gwersi yn ofalus ar gyfer y dysgu, gan gynnwys cyfres o weithgareddau cydlynus sydd yn adeiladu ar ei gilydd. Maent yn addasu cyflymder yr addysgu yn fedrus fel ei fod yn cyd-fynd yn agos gyda chyflymder y dysgu. O ganlyniad, mae disgyblion yn y gwersi hyn yn cymryd gwir ddiddordeb yn y gwaith ac yn gwneud cynnydd buan a chryf yn eu medrau a'u dealltwriaeth bynciol.

Mewn lleiafrif o wersi, mae diffygion yn yr addysgu sydd yn cyfyngu ar y dysgu ac, i raddau llai, ymgysylltiad disgyblion. Mewn rhai achosion, nid yw disgwyliadau athrawon o beth gall disgyblion ei gyflawni yn ddigon uchel neu mae'r tasgau'n anaddas ar gyfer gallu'r dosbarth. Yn yr achosion hyn, nid yw'r athrawon yn gwneud defnydd o'u gwybodaeth o allu'r disgyblion wrth gynllunio. Mewn achosion eraill lle ceir diffygion, mae athrawon yn gor-reoli'r dysgu ac yn gosod gormod o dasgau ailadroddus a byr. Nid yw'r tasgau hyn bob amser yn adeiladu ar ei gilydd yn gydlynus nac yn arwain at nod clir.

Mewn ychydig iawn o wersi, nid oes gan yr athrawon ddisgwyliadau digon uchel o ymddygiad ac ymroddiad disgyblion. Nid yw'r athrawon hyn yn mynnu tawelwch wrth iddynt gyflwyno gwybodaeth neu roi cyfarwyddiadau, nac wrth i'r disgyblion gyfrannu i drafodaethau.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio cyfres o gwestiynau sylfaenol a chaeedig yn briodol er mwyn gwirio gwybodaeth y disgyblion. Maent yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau buddiol er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys yr holl ddisgyblion mewn trafodaethau dosbarth. Mae lleiafrif yr athrawon yn defnyddio strategaethau cwestiynu effeithiol i brocio ac i ddyfnhau dealltwriaeth disgyblion ac mae hyn yn datblygu eu medrau meddwl, eu hyder a'u medrau cyfathrebu.

Mae mwyafrif yr athrawon yn darparu sylwadau pwrpasol ar waith disgyblion ac yn rhoi cyngor buddiol iddynt ar sut i wella eu gwaith. Mae'r athrawon hyn yn cynnig cyfleoedd 'LLNAU' gwerthfawr er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gwella eu gwaith a gwneud cynnydd pellach.

## A3. Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cryfhau'n sylweddol ei darpariaeth ar gyfer llythrennedd. Mae arweinwyr wedi adnabod blaenoriaethau addas ac wedi darparu hyfforddiant buddiol i staff. Maent wedi cyflwyno strategaethau effeithiol sydd wedi'u

mabwysiadu gan y rhan fwyaf o athrawon. O ganlyniad, mae cysondeb ar draws y pynciau o ran cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau llafaredd, darllen ac ysgrifennu'r disgyblion.

Mae'r cydlynydd llythrennedd wedi derbyn hyfforddiant perthnasol i'w rôl. Mae wedi cydweithio'n effeithiol gydag adrannau ar draws y cwricwlwm i gynllunio cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion. Mae arweinwyr wedi darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr i staff i ddatblygu'u medrau ieithyddol ac wedi rhoi hyfforddiant buddiol ar sut i gynllunio tasgau llythrennedd. Bellach, cynhelir sesiynau wythnosol pwrpasol i adrannau rannu eu harferion gorau gyda gweddill y staff.

Mewn llawer o bynciau, mae athrawon yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig. Maent yn defnyddio strategaethau ysgol gyfan defnyddiol fel 'stribedi strwythur' i sicrhau bod disgyblion yn strwythuro'u gwaith yn dda ac yn ysgrifennu'n estynedig. Mae llawer o athrawon yn tynnu sylw at wallau sillafu a gramadeg, ond yn gyffredinol, nid oes digon o bwyslais yn cael ei roi ar draws yr adrannau ar wella mynegiant a chystrawen disgyblion.

Bellach, mae'r holl adrannau'n  cynllunio gweithgareddau defnyddiol er mwyn datblygu medrau darllen sylfaenol disgyblion. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu uwch fedrau darllen disgyblion. Mewn lleiafrif o bynciau, mae yna nawr gyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu medrau fel cyfosod, darllen rhwng y llinellau, dod i gasgliad a rhagfynegi.

Mae'r ysgol wedi adnabod effaith andwyol y pandemig a'r cyfnodau clo ar fedrau llafar y disgyblion, yn enwedig yn y Gymraeg. O ganlyniad, maent wedi ffocysu'n briodol ar gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer yr ymagwedd hon. Er enghraifft, maent wedi cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion gyd-drafod mewn grwpiau yn y cyfnodau cofrestru a'r gwersi. Yn ogystal, maent wedi darparu hyfforddiant buddiol i athrawon ar arddulliau cwestiynu er mwyn cynyddu cyfranogiad llafar disgyblion mewn gwersi. Serch hynny, dim ond lleiafrif yr athrawon sy'n cwestiynu disgyblion yn ddigon medrus i sicrhau eu bod yn datblygu dealltwriaeth ddofn a chyfleu eu rhesymeg yn hyderus ar lafar .

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd pwrpasol o brofion safonol er mwyn adnabod disgyblion gyda medrau llythrennedd gwan. Maent yn darparu rhaglen briodol o ymyraethau i gefnogi'r disgyblion hyn.

### A4. Gwella ansawdd ac effaith arweinyddiaeth ar bob lefel

Ers ei apwyntiad ym Medi 2019, mae'r pennaeth wedi ymgymryd â'i rôl newydd gydag egni a phwrpas. Mae'n arweinydd doeth a synhwyrol sy'n uchel ei barch ymhlith y staff a'r llywodraethwyr. Mae ganddo weledigaeth glir a, gyda chymorth gweddill yr uwch dîm rheoli, mae wedi llwyddo i ddatblygu diwylliant cytûn o gyd-weithio i sicrhau gwelliant. O ganlyniad, mae gwelliant sylweddol yn safonau disgyblion ac yn ansawdd y ddarpariaeth o'i gymharu ag adeg yr arolygiad craidd. Mae'r ysgol wedi llwyddo i sicrhau'r gwelliannau hyn er gwaethaf materion staffio sylweddol ac amodau heriol o ganlyniad I gyfyngiadau'r pandemig.

Bellach, mae strwythur rhesymegol i'r uwch dîm rheoli ac mae dyletswyddau wedi'u dosrannu'n gyffredinol addas. Mae'r newidiadau yn y strwythur rheoli wedi arwain at lefelau atebolrwydd uwch ar bob lefel ac at welliant yn ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd.

Mae'r pennaeth wedi gwneud penderfyniadau anodd ond buddiol, er enghraifft ailstrwythuro'r arweinyddiaeth ganol a chreu arweinwyr newydd. Mae llawer o'r rhain yn datblygu'n dda yn eu rolau. Bellach, ceir ffocws cadarn ym mhob adran ar ddulliau addysgu ynghyd â dealltwriaeth gytûn o flaenoriaethau gwella'r ysgol. Ceir calendr pwrpasol o gyfarfodydd arwain a rheoli ar bob lefel, a grwpiau trafodaeth broffesiynol 'rhannu a rhagori'. Mae trafodaethau'n canolbwyntio'n briodol ar godi safonau disgyblion a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Mae arweinwyr hefyd yn adolygu cynnydd yn erbyn blaenoriaethau gwella'r ysgol yn rheolaidd yn y cyfarfodydd hyn, ac yn cynhyrchu pwyntiau gweithredu addas sy'n cael eu monitro'n briodol mewn cyfarfodydd dilynol.

Mae systemau rheoli perfformiad yr ysgol yn briodol, ar y cyfan. Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi tynhau ar yr ymagwedd hon ac mae nodau synhwyrol sydd yn cysylltu â chyfleoedd dysgu proffesiynol addas. Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â thanberfformio staff yn synhwyrol.

Mae'r corff llywodraethol yn angerddol dros yr ysgol ac yn cynnig cefnogaeth gref iddi. Bellach, maent yn gweithredu'n fwy effeithiol fel cyfaill beirniadol, er enghraifft drwy herio'r ysgol ar gyfran y disgyblion sy'n parhau i astudio'u pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r llywodraethwyr yn dechrau cryfhau eu cyswllt â'u hadrannau neu gyfadrannau dynodedig.

**A5. Gwella'r defnydd a wneir o ganfyddiadau gweithgareddau hunanwerthuso er mwyn cynllunio gwelliant**

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cryfhau ei threfniadau ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae ganddi drefniadau hunanwerthuso pwrpasol a chalendr synhwyrol o weithgareddau i gywain tystiolaeth uniongyrchol am ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar draws yr ysgol. Er bod peth anghysondeb yn parhau o ran pa mor effeithiol mae arweinwyr canol yn defnyddio'r prosesau hyn, mae'r trefniadau'n cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu a chynnydd disgyblion yn y mwyafrif o achosion.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi darparu arweiniad a hyfforddiant pellach i sicrhau bod gan arweinwyr canol well ddealltwriaeth o'u rôl a'u cyfrifoldeb ym mhrosesau hunanwerthuso'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar sut i arsylwi gwersi a chyfleoedd buddiol i graffu ar waith disgyblion gydag aelodau o'r uwch dîm arwain ac arbenigwyr allanol. Mae gallu arweinwyr ar bob lefel i adnabod cryfderau a diffygion trwy'r gweithgareddau hyn yn datblygu'n dda ac mae ychydig o arweinwyr yn gweithredu'n effeithiol iawn ar ganfyddiadau'r gwaith hwn. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw arweinwyr wedi datblygu'n ddigonol eu gallu i arfarnu'r addysgu'n ddigonol yn ôl ei effaith ar safonau a chynnydd disgyblion.

Yn ystod cyfnod y pandemig roedd yr ysgol yn cysylltu'n rheolaidd gyda rhieni a disgyblion i ganfod eu barn am drefniadau ac ansawdd y ddarpariaeth dysgu o bell.

Ers i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol, mae arweinwyr wedi datblygu dulliau defnyddiol i ganfod barn disgyblion trwy gynnal fforymau dysgu rheolaidd. Mae lleiafrif o adrannau yn gwneud defnydd cynhyrchiol o ganfyddiadau'r fforymau hyn er mwyn addasu cynnwys eu gwersi a'u dulliau addysgu.

O ganlyniad i weithgareddau sicrhau ansawdd megis arsylwi, craffu ar waith a chanfod barn disgyblion, mae gan lawer o arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'r prif gryfderau a'r meysydd i'w gwella o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Ar sail y wybodaeth hon, maent yn blaenoriaethu anghenion hyfforddiant er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion. Yn ogystal, ceir cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr a chyson er mwyn i adrannau rannu arferion cryf gyda gweddill y staff.

**Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**